# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## EL(3)-08-10 (p5) : 18 March 2010

Gofynnwch am/Ask for: Rhys Evans
((01286) 679393
( (01286) 679338

Ein Cyf / Our Ref: RhE/Tyst_ELC_1
Eich Cyf / Your Ref:

( rhysevans@gwynedd.gov.uk

Annwyl Syr / Madam,

### Ymchwiliad i Gronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru

Diolch am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy law'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar weithrediad y Cronfeydd Strwythurol rhwng 2007 a 2013 yma yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwn yn seiliedig ar ein profiad o Raglen Cydgyfeiriant Gorllewin a'r Cymoedd sef y brif ffynhonnell o arian Ewrop ar gael yma yng Ngwynedd.

Mae'r cyfleon i weddnewid economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd trwy ddefnyddio cyllid o'r Rhaglen Cydgyfeiriant yn amlwg, ac rydym fel Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i hwyluso'r llwyddiant yma ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Croesawn y cyfle i gynnig gwybodaeth, fydd yn eich galluogi i asesu llwyddiant y Rhaglen hyd yma yn ogystal â chynnig argymhellion ar weithrediad y Rhaglen hyd at ei therfyn.

Fel Awdurdod Lleol credwn ein bod yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad a gweithrediad y rhaglenni yn yr ardal trwy gefnogi a hwyluso mynediad eraill at y cyllid yn ogystal ag arwain prosiectau ein hunain.

Mae'r sylwadau canlynol felly wedi selio ar y profiad a'r wybodaeth sydd gennym yn deillio o'r uchod, fe'u paratowyd mewn ymgynghoriad ac Awdurdodau Lleol eraill yma yng Ngogledd Orllewin Cymru;

### 1.0 Sylwadau Cyffredinol

1.1 Mae strwythur y Rhaglen Cydgyfeiriant yn anelu at nifer llai o gynlluniau sydd yn strategol ar lefel uwch ac o'r herwydd yn arferol yn fwy o ran maint na'r hyn welwyd yn ystod cyfnod y rhaglen flaenorol (Rhaglen Amcan 1 2000 i 2006). Mae pwyslais hefyd ar weithio mewn partneriaeth ar lefel Isranbarthol a Chenedlaethol gyda chyrff ac asiantaethau eraill i ddatblygu a gweithredu prosiectau. Wrth groesawu'r cyfle i gydweithio mae profiadau yn dangos ei fod yn ychwanegu cryn amser i'r broses ymgeisio ac yn gymhleth yn ei hanfod. Hyd yma gwelwn ei fod yn cymryd amser i sefydlogi'r perthnasau a'r trefniadau cydweithio wrth ddatblygu a pharatoi i weithredu cynlluniau. O edrych yn ôl credwn y byddai buddsoddi amser gan Lywodraeth y Cynulliad a'i bartneriaid ar y cychwyn i ddatblygu gweithdrefn safonol wedi bod yn werthfawr er mwyn hwyluso a safoni dulliau o weithio.

1.2 Nodwn hefyd rhai pryderon o safbwynt gallu'r cynlluniau mawrion cenedlaethol i weithredu ar lefel leol, yn benodol o ran gosod a datgan targedau, allbynnau a gwariant penodol i ardaloedd. - gwna hyn y dasg o fonitro llwyddiant mewn ardaloedd daearyddol lleol yn anodd. Mae gallu'r prosiectau hyn i adnabod ac ymateb i anghenion lleol hefyd i'w gwestiynu, ac yn gysylltiedig â hyn ystyrir fod lle i wella yn eu cyfathrebu gyda rhanddeiliaid lleol.

1.3 Gyda datblygiad nifer o brosiectau Cenedlaethol mawrion mae sicrhau mynediad i'r arian ar lefel leol yn aml yn golygu ymwneud a phrosesau tendro. Golyga hyn newid mewn meddylfryd o'r un draddodiadol o chwilio am grantiau i ddarparu gwasanaethau - credwn fod hyn i'w groesawu. Byddwn yn nodi fodd bynnag fod rhaid sicrhau nad oes unrhyw sector (Trydydd Sector yn enwedig) yn cael ei gau allan o'r broses yma gan weithio'n rhagweithiol i atal unrhyw anhawster.

1.3 Tra bod cyfleon yn deillio o'r Rhaglen i gymunedau a sefydliadau lleol dylid nodi fod canfod cyllid cydariannu digonol yn broblemus daw hyn yn sgil cyfyngiadau a thoriadau o fewn cyllidebau Awdurdodau Lleol ac anawsterau i'r sector breifat o ganlyniad i'r sefyllfa economaidd fregus bresennol. Nodwn fod cynyddu'r cyfraddau ymyrraeth ar draws y rhaglen wedi bod o gymorth ac wedi galluogi rhai cynlluniau fynd ymlaen i'w gwireddu a nodwn hefyd bwysigrwydd y 'Gronfa Cydariannu Wedi Ei Dargedu' (TMF) a weinyddir gan Lywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid a phwysigrwydd parhad y gronfa yma.

1.4 Mewn mater sydd yn gysylltiedig â chydariannu croesawn y gallu i ddatblygu prosiectau hyd at 5 mlynedd. Ond, mae profiad yn dangos fod sicrhau cyllideb o fwy na 3 mlynedd trwy rai ffynonellau cydariannu domestig ynddo'i hyn yn gyfyngus ac yn amharu ar ein gallu i ddatblygu prosiectau.

### 2.0 Cynnydd

2.1 Yn gyffredinol teimlwn fod cynnydd yn y Rhaglen wedi bod yn araf hyd yma. Er bod nifer y prosiectau sydd wedi eu cymeradwyo yn ymddangos yn addawol gyda'r ymrwymiad ariannol uchel sydd ynghlwm yn hynny, rydym yn bryderus iawn fod lefel y gwariant ardystiedig yn sylweddol is. Pryderwn fod y lefelau gwariant isel yma yn arwydd o ddiffyg gweithgarwch ar lefel leol, sydd ynghlwm a'r

sylw wnaed yn 1.2 uchod.

2.2 Mae'r broses ymgeisio ei hun yn parhau yn hirwyntog gyda nifer o gamau i'w cymryd, mae hyn wedi cyplysu a pheth anawsterau technegol gyda system ar-lein WEFO sydd wedi achosi oedi sylweddol. Wrth ymwneud a swyddogion WEFO o fewn y broses ymgeisio rydym fel Awdurdod wedi cael profiadau pur amrywiol. Ystyrir fod Timau Gofodol WEFO ar y cyfan yn rhagweithiol a chyflym yn eu hymateb, tra bod rhai adrannau eraill yn llai llwyddiannus yn y gefnogaeth a gynigir. Ceir argraff ar brydiau fod gwahaniaethau yn y dulliau arfarnu ceisiadau Awdurdodau Lleol a'r hyn sydd yn digwydd gyda cheisiadau Adrannau'r Cynulliad - ymddengys fod cynlluniau mawrion yn cael eu cymeradwyo yn rhwydd gyda pheth gwaith datblygu pellach angen ei wneud.

2.3 Mae gennym brofiad penodol o arafwch swyddogion wrth asesu Cynllun Busnes ar gyfer prosiect 'Llwyddo'n Lleol' (ESF Blaenoriaeth 1 a 2). Cychwynnodd trafodaethau gyda WEFO ym mis Tachwedd 2007, cyflwynwyd y Cynllun Busnes yn Rhagfyr 2008 a ni chafwyd sylwadau am gyfnod o 5 mis. Bu i hyn achosi oedi sylweddol yn natblygiad y prosiect. Canlyniad hyn oedd bod gwaith sylweddol wedi gorfod digwydd ar fyr rybudd i ail ystyried y pecyn ariannol oedd ynghlwm a'r prosiect. Bellach mae Llwyddo'n Lleol wedi ei gymeradwyo flwyddyn a thri mis ar ôl y drafodaeth gyntaf.

2.3 Tynnwn sylw hefyd at wahaniaethau yn yr arweiniad cychwynnol dderbynnir gan swyddogion WEFO. Cafwyd arweiniad ar faint a graddfa prosiect arfaethedig gan y Cyngor yn y maes Tir ac Eiddo ar ddechrau'r drafodaeth sydd erbyn hyn wedi newid yn sylweddol. Teimlwn nad ydi'r broses ymgeisio yn ddigon tryloyw bydd rhai prosiectau yn cael eu gosod ar restrau 'wrth gefn' am gyfnodau maith ac yn peri ansicrwydd ar eu dyfodol.

2.4 Mae'r broses dendro a ddefnyddir yn y Rhaglen i gomisiynu gweithgaredd hefyd yn gallu bod yn araf ac yn amharu ar gynnydd, yn ychwanegol mae'r diffyg cysondeb rhwng prosesau tendro sydd yn cael eu cyflwyno gan y prosiectau mawrion yn peri pryder sylweddol. Mae rhai enghreifftiau rhagorol o brosesau tryloyw a chlir gyda chanllawiau cadarn, cyfeiriwn yma at broses tendro'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol i Gymru ar gyfer prosiectau'r Porth Ymgysylltu a ILM Gogledd Orllewin Cymru. Mae achosion hefyd o brosesau cymhleth a hir sydd yn anodd eu dilyn yn ogystal, cyfeiriwn at brosiect Cymunedau a Natur Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ogystal â Croeso Cymru yn y prosiectau Twristiaeth Gynaliadwy a Twristiaeth Arfordirol. Yn ystod cyfnod tendro cynlluniau Croeso Cymru gwelwyd anhawster wrth geisio ffitio syniadau i mewn i gyfyngiadau gofynion cyllidol y prosiect, bu i hyn gyfyngu ar y gweithgaredd all yn y bôn yn effeithio ar eu cynaladwyedd tymor hir.

2.5 Nodwn hefyd fater yn ymwneud a chychwyn prosiectau unwaith bydd cymeradwyaeth wedi ei dderbyn gan WEFO. Bydd dyddiad cychwyn prosiect yn cael ei nodi yn syth (o fewn ychydig ddyddiau), rydym eisoes wedi cael profiad o orfod mynd ati yn syth i ail-broffilio gwariant er mwyn cymryd i ystyriaeth i recriwtio staff ac yn y blaen. Byddwn yn argymell felly fod amser yn cael ei roi rhwng cymeradwyaeth a dechrau'r prosiect er mwyn cael popeth yn ei le.

### 3.0 Llwyddiannau hyd yma

3.1 Mae'r Rhaglen eisoes wedi dod a llwyddiant i'r Gogledd Orllewin, gwelwyd cymeradwyo 10 prosiect gwerth £114m, yn gyfuniad o brosiectau ar y cyd rhwng Awdurdodau Lleol, prosiectau ar y cyd rhwng cyrff eraill a hefyd prosiectau unigol. Mae 15 prosiect o ardal y Gogledd Orllewin mewn cam datblygol aeddfed ar hyn o bryd gyda gwerth prosiect o ddeutu £185m. Gwelwyd hefyd nifer o brosiectau yn cael eu cefnogi yn dilyn proses dendro. Er y llwyddiant byddwn yn nodi fod hyn yn sylweddol is na'r rhanbarthau yn De Cymru.

3.2 Credwn fod y Timau Ewropeaidd Gofodol sef partneriaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn arwain arni gydag Awdurdodau Lleol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i hwyluso mynediad i gyllid Cydgyfeiriant wedi dechrau dangos gwerth wrth gefnogi a hwyluso mynediad cyrff i gyllid trwy'r Rhaglen. Mae'r ymarfer da sydd i'w gael ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael ei rannu yn gyson drwy rannu Cynlluniau Busnes llwyddiannus i gefnogi datblygiad syniadau prosiect. Edrychwn ymlaen at weld y llwyddiannau yma'n parhau trwy law'r Timau Ewropeaidd Gofodol.

3.3 Mae rhai o'r datblygiadau diweddar yng nghynnwys y Rhaglen hefyd i'w croesawu ac yn ddiweddar croesawyd y cyhoeddiad yn ymwneud a'r posibilrwydd o ddarparu isadeiledd technoleg gwybodaeth drwy law'r Rhaglen - Bydd y newidiadau'n golygu y gallai cronfeydd helpu gwelliannau isadeiledd i wella mynediad i fand eang mewn lleoedd digyswllt yn yr ardaloedd gwledig a llai poblog. Edrychwn ymlaen at weld datblygiad cynlluniau pendant gan ddefnyddio'r Rhaglen yn fuan.

### 4.0 Rhaniad Prosiectau

4.1 Dengys ffigyrau diweddar gan WEFO fod 30% o'r Rhaglen hyd yma wedi ei fuddsoddi mewn busnesau, 46% mewn pobl a 22% ar gyfer adfywio cymunedol nid yw hyn yn adlewyrchu'r dosbarthiad o reolwyr y prosiectau wedi eu cefnogi. Mae'r Cynulliad wedi datblygu ac maent yn arwain ar ganran uchel o'r prosiectau sydd wedi eu cymeradwyo. Mae hyn yn cyd-fynd a'r hyn welwyd yn ystod Amcan 1 mae'r nifer leiaf o brosiectau i weld yn dod o'r sector breifat. Byddwn hefyd yn nodi nad ydi'r trydydd sector yn ei chael yn hawdd ar hyn o bryd i gael mynediad at y cyllid yn uniongyrchol.

### 5.0 Cynaladwyedd prosiectau

5.1 Teimlwn fod y ffaith y bydd nifer llai o brosiectau yn cael eu cymeradwyo yn golygu na fydd cynaliadwyedd hirdymor datblygiadau unigol yn gymaint o fater - ystyriwn hefyd fod y broses o Gynllunio Busnes fel sydd wedi ei fabwysiadu yn y Rhaglen yn gwneud i brosiectau edrych o ddifrif ar gynaliadwyedd yn y cam cychwynnol - mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag , tynnwn sylw'r Pwyllgor i'r angen i sicrhau cynaladwyedd cynlluniau yn derbyn arian drwy law'r broses tendro hefyd yn bwysig.

Diolch unwaith eto am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth bwysig hon, hyderwn bydd y sylwadau uchod yn eich cynorthwyo yn eich gwaith.

Yn gywir,

**Sioned E Williams**
Pennaeth Economi a Chymuned
Head of Economy & Community